



Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

20 Mai 2019 / 20 May 2019

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 20 Mai 2019 yn Neuadd Pentref Carmel.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 20 May 2019 at Carmel Village Hall.

Yn bresennol / Present - 12 aelod / 12 members

Yn cynrychioli Ward y Fron – [Representing the Ward of Fron](#)
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – [Representing the Ward of Carmel](#)
Cyng. Bryn Williams; Cyng. Helen Hughes; Cyng. Alan Patterson

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – [Representing the Ward of Y Groeslon](#)
Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. Gerwyn Owen; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies ; Cyng. Hywel J Owen

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - [Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle](#)
Cyng. Dyfed Williams; Cyng. Clive Bayley

Hefyd yn bresennol / [Also in Attendance-](#)

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / [Council's Administrative & Finance Manager](#)
Ann Llwyd , Cyfieithydd / [Translator](#)

19-05-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / [Chairman's Welcome](#)**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Alun Wyn Jones.
Aeth yn syth ymlaen at y rhaglen

[The meeting was opened by the Chairman, Cllr. Alun Wyn Jones..](#)
[He proceeded on to the evening's business](#)

19-05-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / [Apologies for Absences](#)**

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau ymlaen llaw i'r cyfarfod.

19-05-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - [To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000](#)**

Rheolwr – eitem 19-05-12 – Pensiwn y Rheolwr. Gadawodd y cyfarfod am yr eitem hwn .
The Manager – item 19-05-12 – Pension. He left the meeting for this item.

19-05-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 15 Ebrill 2019 fel Rhai Cywir / [To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 15 April 2019 as a True Record](#)**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-05-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-04-06 **Parcio Dinas Dinlle**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd yn y rhaglen.

Sylwadau Aelodau-

Dyfed Williams – pryderon fod cynllun busnes y Cyngor Sir yn ddiffygiol ac angen gweld y manylion llawn. Yn cwestiynnu sylwadau Cyngorydd Aeron Maldwyn Jones gan nad oedd dim cofnod gan Swyddogion Cyngor Gwynedd o unrhyw arian yn cael ei fuddsoddi yn yr ardal.

Bryn Williams - yn atgoffa aelodau fod y Cyngor wedi penderfynu gwrthod bwriad Cyngor Gwynedd i godi ffi am barcio ar y traeth. Rhaid i'r aelodau fod yn gadarn a chadw at y penderfyniad heb ildio dim. Gwrthwynebiad mawr gan bobol o du allan i'r gymuned am hwn.

Helen Hughes - arian i'r Cyngor Sir fydd hwn nid i'r gymuned ac nid ar gyfer gwelliannau

Penderfynwyd - gwahodd Llŷr B Jones, Uwch Reolwr Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod fis Mehefin.

Resolved- to invite Llŷr B Jones, Senior Manager , Economy & Community Department of Gwynedd Council

19-05-07 **Cludiant Cymunedol Dyffryn Nantlle Community Transport**

Sylwadau Aelodau-

Eddie Willcox -yn bresennol yn yr ail gyfarfod yn trafod cludiant cyhoeddus. Gwell gwasaneth rwan yn l cymunedau Carmel, Fron a Rosgadfan gan fod gwasanetyh bws 1F wedi ei ehangu.

Bws ychwanegol wedi ei dreialu am 3 mis , sef bws 9 y bore o Gaernarfon i Benygroes via Fron a Camel ac yn dychwelyd nôl am 11 y bore o Benygroes yn rhoi cyfle i drigolion ymweld y meddygon. Y daith i weld yn llwyddiannus iawn ynghyd a bws 11.30 y bore i Gaernarfon.

Siomedig nad oedd Uned Cludiant Cyngor Gwynedd wedi hysbysebu'r gymuned ymlaen llaw i'r newid, ond yn croesawu'r gwasanaeth newydd.

Hywel J Owen – yn bryderus o fwriad y Llwydoreth sydd yn bygwth teithiau am ddim i'r dros 60. Byddai'n ddigon i gau y gwasanethau bws cyhoeddus.

Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth gan ddiolch i Cyng. Eddie Willcox am yr adborth.
Resolved – to accept the information and to thank Cllr Willcox for the feedback

19-05-08 **Ymgysylltu Gyda'r Gymuned / Consulting With The Community**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Caryl Lewis o Gwmni Delyn wedi datgan fod yna oddeutu 500 o holiaduron wedi cyrraedd. Disgwylir l adroddia draft o ganlyniad y gwaith fod ar gael erbyn 12 Mehefin.

Gerwyn Owen – yn awgrymu y dylid trafod yr adroddiad yn y Cyngor llawn nesaf 17 Mehefingan gychwyn y cyfarfod am 7 yr hwyr

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved – to accept the information***

19-05-09 **Cyfeillion Ysgol Llandwrog / Friends of Ysgol Llandwrog**

Trafodwyd y mater fel a nodir yn y Rhaglen.

Sylwadau aelodau -

EW – ydi'r cais yn cyd-fynd a pwras o safbwynt amgylcheddol?

DW – rhaid ymddiried yn Swyddogion Cyngor Gwynedd o safbwynt priodoldeb y cais.

Cynnig gan GO cefnogi'r cais.
Eilwyd gan GOJ

***Penderfynwyd – cefnogi'r cais
Resolved – to support the request***

19-05-109 **6 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Gynhaliwyd 18 Ebrill 2019 To Confirm the Minutes of the Finance Committee held on 18 April 2019 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-05-11 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-05-12 **Cyfrifon Terfynol 2018-19 Final Accounts**

Ffurflen Flynyddol 2018-19 - fel y'i cyflwynir i'r Archwilydd Mewnol ac yna i'r Archwilydd Allanol / Annual Form 2018-19 - as will be presented to the Internal Auditor and then to the External Auditor

Balans Y Cyngor 1 Ebrill 2018	Council Balances 1 April 2018	£22,000.52
+ Praesept 2018-19	+ Precept 2018-19	£48,000.00
+ Derbyniadau Eraill	+ Other Income	£9,342.79
- Costau Staff	- Staff Costs	£8,531.52
- Llog ar Benthyciadau	- Interest on Loans	£11,428.34
- Taliadau Eraill	- Other Payments	£50,037.28
= Balansau ar 31 Mawrth 2019	= Balances at 31 March 2019	£9,345.97
+ Dyledwyr	+ Debtors	£432.56
+ Cyfanswm Yr Arian Parod (ar ol ystyried am sieciau heb eu cyflwyno)	+ Total Cash at Bank (after adjusting for unpresented cheques)	£12,192.89
- Credydwyr	- Creditors	£3,279.48
= Balansau 31 Mawrth 2019	= Balances at 31 March 2019	£9,345.97
Cyfanswm Asedau Sefydlog 31 Mawrth 2019	Total Fixed Assets 31 March 2019	£31,200.00
Cyfanswm y Benthyciad ar 31 Mawrth 2019-	Total Loans Outstanding as at 31 March 2019	£132,580.19

Cysoniad y Banc i 31 Mawrth 2019 / 31 March 2019 – Bank Reconciliation	
Balansau'r Banc i 31 Mawrth 2019 – Balances in the Bank 31 March 2019	£13,118.89
- Llai Sieciau heb eu cyflwyno / Less Unpresented Cheques	£926.00
- Llai Credydwy'r / Less Creditors	£3,279.48
+ Dyledwy'r / Debtors	£432.56
Balans yn cario drosodd i 1 Ebrill 2019 / Balance Carried Forward to 1 April 2019	£9,345.97

Cronfeydd y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 / Specific Funds as at 31 March 2019	
	£9,345.97
- Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve	£5,000.00
- Cronfa Caeau Pel-droed / Football Field Fund	£1,000.00
- Clustnodi ar Gyfer Ymgysylltu / Earmarked for Consulting With the Community	£790.00
- Cyfraniad Ymlaen Llaw / Contribution Received in Advance	£123.00
Cyfanswm / Total	£6,913.00
- Yn gadael balans heb ymrwymiad / Uncommitted balance	£2,432.97
Cyfanswm / Total	£9,345.97

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn -

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y wybodaeth uchod.*
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn y balansau fel a nodwyd ac yn cadw'r tanwariant o £2,432.97 mewn cronfa heb ei glustnodi hyd nes y bydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi dod i law.*

Resolved – to accept the Committee' recommendation as follows.

- i) For the Council to note the above information.*
- ii) For the Council to note the balances as stated and to leave the underpend of £2,432.97 unallocated until the result of the consultation is received.*

19-05-13

Cyfrifon Terfynol a Trefniadau Archwilio Cyfrifon 2018-19 / Final Accounts & Audit Arrangements for 2018-19

Adroddwyd gan y Clerc fod llythyr wedi cyrraedd gan Archwilwyr Allanol , BDO LLP gyda gofynion Aarchwiliad 2019, sydd wedi eu hapwyntio gan Lywodraeth Cymru.

Amserlen -

1 – Y Swyddog Ariannol/Clerc yn paratoi Adran 1 a 2

2 - Yr Archwilydd Mewnol yn cwblhau'r Adroddiad Archwilio Mewnol

3 – Y Swyddog Ariannol/Clerc yn ardystio'r ffurflen yn Adran 2 y DAatganiad Llywodraethu Blynyddol cyn **30 Mehefin 2019** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Cyngor.

4 – Y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol o'r Cyngor cyn **30 Mehefin 2019**.

5 - Caiff Adran 2 o'r Ffurflen ei lofnodi a'i ddyddio gan y Cadeirydd yn y cyfarfod. Y Swyddog Ariannol/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol a'r dogfennau wedi eu hardystio y gofynnwyd amdanynt at yr archwilydd allanol a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6- Yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad. Os nad oes ddiwygiadau bydd yr archwilydd yn ardystio Adran 3 ac yn ei ddychwelyd at y Cyngor i'w chyhoeddi. Os oes angen gwneud diwygiadau

bydd yr archwilydd allanol yn dychwelyd y ffurflen at y Cyngor i'w diwygio a'i hail-gymeradwyo. Rhaid anfon eto at yr Archwilydd Allanol.

7- Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol a ardystiwyd erbyn **30 Medi 2019**.

Gofynion yr Archwilydd

Datganiadau Cyfrifyddu -

Cysoniad Banc I 31 Mawrth 2019

Esboniad am yr amrwyddiadau rheng cyfrifon 2018-19 a 2017-18

Esboniad am unrhyw wahaniaethau rheng cyfrifon 2017-18 a 2018-19 ar y ffurflen flynyddol

Datganiad Llywodraethu Blynyddol-

Ffotograff yn dangos bod yr hysbysiad archwilio wedi cael ei arddangos

Rhestr o bwylggorau a sefydlwyd gan y Cyngor

Cylch gorchwyl pob pwyllgor

Rheolau Sefydlog a rheolaidau ariannol y corff

Ar gyfer yr holl gontaractau a ddyfarnwyd yn 2018-19, tystiolaeth bod y corffwedi cydymffurfio a'l reolau sefydlog ee copi o'r hysbyseb, adroddiadau'r corff a cofnodion yn cymeradwyo'r dyfarnu'r contract

Nodwyd pryderon gan y Clerc am y llwyth gwaith ychwanegol ond roedd y Clerc yn fodlon fod y mwyafrif o'r wybodaeth y gofynnir amdano mewn lle.

Penderfynwyd ar y canlynol.

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth uchod.***
- ii) Fod y Cyngor yn rhyddhau y cyfrifon i'r Archwiliwr Mewnol sef Cwmni W J Mathew a'i Fab i archwilio y cyfrifon a cwblhau ei adroddiad..***

Recommendation to the Council.

- i) For the Council to note the above information.***
- ii) For the Council to submit the accounts to the Councils appointed Internal Auditor, W J Mathews & Son to audit the accounts and prepare his report.***

19-05-14 **Rhoddion Adran 137 – Clwb Gwawr Genod Llan (Llandwrog) - Section 137 Grants**

Penderfynwyd rhoi Rheolau Sefydlog Y Cyngor o'r neilltu ar gyfer yr eitem hwn gan fod y Cyngor yn trafod y posibilrwydd o wrthdoi penderfyniad a wnaed o fewn cyfnod o chwe mis..

Dywed y Rheolau Sefydlog Cymal 3.2.15. *Gellir trafod penderfyniad gan y Cyngor yn dilyn cyfnod o chwe mis calaender ers y cyfarfod a gadarnhaodd y penderfyniad. I wneud hynny, rhaid cael cynnig pellach a rhybydd ysgrifenedig gan o leiaf 5 aelod i'r Rheolwr, neu trwy gynnis a gyflwynir yn sgil argymhelliad pwyllgor.*

3.2.16 Pan ymrddiniwyd a chynnig yn sgil rheol 3.2.15 ni ellir cyflwyno cynig tebyg a fewn cyfnod o chwe mis calaender ers y cyfarfod a gadarnhaodd y penderfyniad

Nodwyd y sylwadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod 18 Ebrill 2019 yn benodol-

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Cyngor yn ei gyfarfod 18 Mawrth 2019 wedi gofyn i'r Pwyllgor hwn i edrych eto ar gais Clwb Genod y Llan (Llandwrog). Gwrthodwyd y cais gan y Pwyllgor Cyllid hwn yn ei gyfarfod 13 Chwefror 2019 gan nad oedd yr aelodau methu cyfiawnhau'r gwariant i'r trethdalwyr yn benodol oherwydd –

- 1) Natur rhai o weithgaredda'r Clwb
- 2) Hyn yn arwain at ansicrwydd at gysylltiad y Clwb a gweddill y gymuned

Nodwyd gan y Rheolwr fod gohebiaeth wedi dod i'r Cyngor gan Mudiad Cenedlaethol Merched Y Wawr sydd yn cefnogi'r cais ac yn gofyn i'r Cyngor ail-ystyried ei benderfyniad

Sylwadau Aelodau-

GOJ – cydnabod fod yna rhannau o'r cais yn ymwened a'r gymuned. Yn awgrymu y dylid cyfrannu swm o £50

DW – o'r farn y dylid cadw at y penderfyniad gwreiddiol ac ymddiried yn aelodau y Pwyllgor Cyllid oedd wedi argymhell gwrthod y cais 'nol yn Chwefror 2019. Gellir gofyn i'r Grwp wneud cais eto y y flwyddyn nesaf.

HJO – yntau hefyd o'r farn fod rhaid cadw at penderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Cyllid a'r Cyngor i wrthod y cais.

DCD – atgoffa aelodau fod y grwp yn rhan o fudiad cenedlaethol Merched y Wawr

BW – o'r farn y dylid cefnogi criwiau ifanc yn y gymuned.

HH – wedi gwrthod unwaith – dylid cadw at hynny.

Adroddwyd gan y Rheolwyr fod y mater hwn wedi amlygu gwendid yn nhrefniadau y Cyngor yn benodol meini prawf dosbarthu rhoddion. Bydd rhaid i'r Cyngor llunio polisi a ffurflen gais cyn ystyried ceisiadau 2020.

Gwnaed cynnig gan GO i gyfrannu £50 i gydnabod fod yna rhannu o'r cais yn ymwened a'r gymuned.

Eilwyd y cynnig gan GOJ.

O blaid y cynnig 4, yn erbyn y cynnig 5, atal pleidlais 2.

Penderfynwyd ar y canlynol –

- i) Cadw at penderfyniad wnaed fis Chwefror 2019 i wrthod y cais.***
- ii) Fod y Cyngor yn ymddiried yn y Pwyllgor hwn i lunio ffurflen gais a sefydlu meini prawf ar gyfer rhoddion 2019-20 a thu hwnt.***

The following was resolved -

- i) For the Council to keep to the decision made in February 2019 to refuse the application.***
- ii) For the Council to entrust this Committee to draw an application form and a clear set of criteria for applications in 2019-20 and beyond.***

Mae trafodaethau wedi bod mewn lle yn ddiweddar am gynllun Pensiwn i'r Rheolwr gan ei fod yn rhan o'i gytundeb gwaith. Penderfynodd Y Rheolwr i beidio ymuno a'r cynllun pensiwn pan gafodd gyfle i ymuno rhai blynyddoedd yn ôl ond mae'r mater wedi cael ei godi eto yn dilyn diweddariad o'r gytundeb gwaith. Tydi'r Cyngor ddim mewn sefyllfa i fedru cynnig aelodaeth o gynllun llywodraeth lleol (LGPS) i'r Rheolwr o achos y costau sylweddol sa hynny'n golygu a felly aethpwyd ati i ymchilio am rwbath sa'n cynnig Pensiwn sa'n mwy fforddiadwy i'r Cyngor. Adroddodd DCD yn ôl i'r pwyllgor bod modd trwy gynllun "Workplace Pension" gwneud hyn lle buasai lleiafswm cyfraniadau yr unigolyn yn 5% a'r Cyflogwr yn 3% o'r cyflog blynyddol. (Buasai cyfraniad y Cyngor yn 24% i fewn i LGPS ynghyd a chostau Actuary a goblygiadau eraill pe byddem wedi cario ymlaen i lawr y llwybr hwnnw.)

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -

- i) Fod y Cyngor yn newid cytundeb y Rheolwr i'w ail-eirio fel bod "cynllun pensiwn ar gael" yn hytrach na "bod yn aelod o'r LGPS"***
- ii) Fod Y Cyngor yn sefydlu Pensiwn "Workplace" i'r Rheolwr hefo taliadau o 5% gan y Rheolwr a 10% gan y Cyngor yn flynyddol.***
- iii) Fod y Cyngor yn gwneud cyfraniad i fewn i'r Cynllun i adlewyrchu'r ffaith fod cytundeb y Rheolwr yn effeithiol o 1 Ebrill 2019.***

Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows:

- i) For the Council to change the wording within the Manager's contract to "a pension being available" rather than "membership of the LGPS".***
- ii) For the Council to put in place a workplace pension for the Manager with contributions of 5% from the Manager and 10% from the Council.***
- iii). For the Council to backdate the Council's contributions to reflect the fact that the new contract was effective 1 April 2019***

19-05-16 **8 Ffurflen Flynyddol Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn Ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 / *Community & Town Councils in Wales Annual Return for the Year Ended 31 March 2019***

Adroddwyd gan y Rheolwr fod David Chidley o Gwmni WJ Mathews a'i Fab wedi cwblhau ei archwiliad o cyfrifon 2018-19, ac wedi arwyddo'r Ffurflen Flynyddol. Nid dd unrhyw fater wedi dod i'w sylw.' Roedd y Rheolwr yn ei rôl fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor wedi arwyddo Rhan 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae rhaid i'r Cyngor nawr gymeradwyo y ffurflen ac i'r Cadeirydd arwyddo rhan 2 cyn ei anfon ymlaen i'r Archwiliwr Allanol sydd wedi ei penodi gan Llywodraeth Cymru.

Penderfynwyd ar y canlynol.

- iii) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth uchod.***
- iv) Fod y Cyngor yn derbyn cymerdwyo'r Ffurflen Flynyddol***
- v) Fod y Cyngor yn cyfarwyddo y Cadeirydd i arwyddo Rhan 2 o'r Datganid Llywodraethu Blynyddol o'r Ffurflen Flynyddol***
- vi) Fod y Rheolwr yn rhyddhau y cyfrifon i'r Archwiliwr Allanol yn unol a'r amserlen.***

Recommendation to the Council.

- iii) For the Council to accept the above information.***
- iv) For the Council approve the Annual Return.***
- v) For the Council to direct the Chairman to sign Part 2 of the Annual Governance Statement .***

- vi) *For the Manager to send the Annual Return to the External Auditor as per the timetable.*

19-05-17 **8 Materion a Godwyd gan Aelodau / Matters Raised by Members Council**

Cynghorydd. Dyfed Williams

19-05-18 **Cyffordd Cae Halen Bach**

Pryderon am gordyfiant ar dir prifat ar y gyffordd – yn beryglus i yrrwyr sydd yn dod o gyfeiriad Bwlan..

Penderfynwyd – cyfeirio'r cwyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
Resolved – to refer the matter to the Heighways Department of Gwynedd Council

Cynghorydd Eddie Willcox

19-05-19 **Canolfan y Fron**

Adroddwyd ganddo fod cyfarfod wedi ei gynnal yn ddiweddar yn y Ganolfan a bod Grwp Datblygu Y Fron wedi ei ddiddymu.

Nifer o gwynion gan trigolion y Gron am rheoLAETH Y Ganolfan.

Dywedodd y Cadeirydd mai mater i trigolion y Fron ydi hwn ac nid y Cyngor.. Angen i'r Cyngor cadw hyd braich o'r materion

Penderfynwyd – nodi'r wybodaeth
Resolved – to note the matter

19-05-20 **Sgwar Y Fron**

Prydron ganddo am faterion megis nythod tylluanod. Rhaid cael cyd-bwysedd ecolegol cyn cychwyn ar osod nythod o'r math. Bydd yn dod ar mater I sylw Swyddogion y Parc merwn cyfarfod a gynhelir yn fuan yn Cae'r gors.

Penderfynwyd – nodi'r wybodaeth
Resolved – to note the matter

19-05-21 **Ffordd Osgoi Caernarfon**

Yn bryderus nad oes ddigon o weithwyr lleol £devoid of local contractoctos". Oes posib dod ar mater I sylw Cyngor Gwynedd

Dyfed Williams – Jones Brothers, Ruthin ydi'r contractwr ac yn hysbysebu yn ddyddiol am llafur lleol.

Cadeirydd – amodau Caerdydd nid Cyngor Gwyendd

Penderfynwyd – nodi'r wybodaeth heb weithredu
Resolved – to note the matter

19-05-22 **Llochesi Bws y Fron**

Adroddwd gan y Rheolwyr fod lloches bws Dinas Dinlle yn fwy o flaenoriaeth na lloches bws yn y Cwm. Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried canlyniad yr ymgysylltu cyn ymrwymo llunio rhestr blaenorieth gwaraint beth bynnag..

Penderfynwyd – nodi'r wybodaeth a cadw'r mater dan ystyriaeth hyd nes y daw canlyniad yr ymgysylltu i law.

Resolved – to note the information and to keep the matter under consideration until the result of the public consultation is received.

19-05-23 **8 Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**
Panel Apel Mynediad a Phanel Apel Gwaharaddiad Disgyblion / Pupil Admissions Appeal & Panel & Exclusions Appeal Panel

Trafodwyd y mater fel nodwyd yn y rghalen ./ Matter discussed as note in the Agenda

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau

Resolved – to accept the information without comments

Materion Cynllunio / Planning Matters

19-05-24 **9 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Ebrill 2019 / April 2019**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio

<https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2>

Full details of the Planning Applications

<https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1>

Nid oedd ceisiadau cynllunio y mis hwn – No planning application this month

Materion Ariannol / Financial Matters

19-05-25 **10 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Ebrill 2019 – Income Received April 2019**

Manylion / Details	Cyfanswm
Grant Grwp Alexandra (trwy law / via Cyng. Eddie Willcox)	£125.00
Praesept 2019-20 – Rhan 1 o 2 / Part 1 of 2	£27,500.00
Beachcroft – Ad-daliad colled Lloches Bws Cae'r Moel	£2,175.00

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .

Resolved to accept the information

19-05-26 **11 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number

Cyflog y Rheolwr – Mai 2019 – Managers salary May 2019	£564.09		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Mai 2019 – Income Tax May 2019	£152.88		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Mai 2019 – Managers Allowance May 2019	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Ann Llwyd – Cyfiethu Mai / Translation Costs May	£100.00	£100.00	101899
Post Brenhinol – Holiaduron / Royal Mail - Questinnaires	£111.45	£133.74	101900
WJMatthews a'i Fab / WJ Matthews & Son – Archwilio Cyfrifon	£350.00	£550.00	101901

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments***

19-05-27 **12 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (17 Mehefin 2019 / 17 June 2019)**

Cyng. Alan Patterson, Carmel
Baw Cwn, Carmel

19-05-28 **13 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / Dates of Next Meetings**

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Mehefin / June Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 17 Mehefin 2019 / [Monday 17 June 2019](#)
Amser / Time - 7.30 yr hwyr Lleoliad / Venue Neuadd Pentref Carmel Village Hall Y Fron

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid – Finance Committee**
Dyddiad / Date – i'w gadarnhau / i'w gadarnhau
Amser / Time i'w gadarnhau
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 yr hwyr / The meeting ended 8:50 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Signed by the Chairmam

Dyddiad - Date